# CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN Y SIAMBR, TŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MAWRTH 4 GORFFENNAF 2023 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Cynghorydd E.M. Aldworth - Maer
Cynghorydd M.A. Adams - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

C. Andrews, A. Angel, C. Bishop, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, D.T. Davies MBE, G. Ead, G. Enright, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Forehead, E. Forehead, J. E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, M. James, L. Jeremiah, G. Johnston, J. Jones, S. Kent, A. Leonard, P. Leonard, C.P. Mann, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, T. Parry, L. Phipps, M. Powell, D.W.R. Preece, H. Pritchard, J. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Rao, J. Reed, J. Roberts, R. Saralis, J. Simmonds, S. Skivens, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, L.G. Whittle, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, K. Woodland, C. Wright

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), R. Thomas (Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio), D. Lucas (Arweinydd Tîm, Cynllunio Strategol), M. Godfrey (Arweinydd Tîm, Rheoli Llygredd a Chynllunio at Argyfyngau a Chydnerthedd), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), R. Barrett (Cofnodwr)

Hefyd yn bresennol:

D. Walker (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru) ac A. Horn (Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).

**ER COF**

Cyfeiriodd y Maer at farwolaeth Cynghorydd Jim Sadler, a hunodd ar 23 Mai 2023. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion ar eu traed am funud o ddistawrwydd fel arwydd o barch.

Soniodd y Cynghorydd Roy Saralis am ei dristwch mawr ar ôl colli ei gydweithiwr ward a'i gyfaill tymor hir, gan gyfeirio at y negeseuon niferus o gydymdeimlad a gafwyd oddi wrth gynifer o'r Aelodau, a werthfawrogwyd yn fawr gan deulu'r Cynghorydd Sadler. Talodd y Cynghorydd Saralis deyrnged i gefnogaeth hir y Cynghorydd Sadler fel aelod lleol o'r blaid ac ymgyrchydd. Mynegodd y Cynghorydd Saralis ei dristwch y bu cyfnod Jim yn ei swydd mor fyr gan sôn am yr amseroedd a dreuliasant gyda'i gilydd, a gan ddymuno y bydd ei ffrind, yr oedd yn gweld ei eisiau'n fawr, yn gorffwys mewn hedd.

**NEWIDIADAU I DREFN Y CYFARFOD**

Dywedodd y Maer ei fod wedi rhoi caniatâd i Arweinydd y Cyngor wneud datganiad, a hefyd i Eitem Agenda 11 (Cyflwyniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol) gael ei gymryd yn syth ar ôl Eitem Agenda 5.

**TREFNIADAU AR GYFER RECORDIO, FFILMIO A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Prif Weithredwr y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ac y byddai recordiad ohono ar gael ar ôl y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Wylio. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr A. Broughton-Pettit, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, B. Owen, D. Price a J. Scriven.

**2. CYHOEDDIADAU'R MAER**

Cyfeiriodd y Maer at yr ymrwymiadau a digwyddiadau niferus a fynychwyd ganddo ef a'r Dirprwy Faer ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, wedi iddynt fynychu 17 o ddigwyddiadau rhyngddynt. Roedd yr ystod helaeth o ymrwymiadau'n cynnwys taith gerdded noddedig gydag Ysgol Gynradd Fochriw, gala a chyngherddau canmlwyddiant, seremonïau comisiynu a gwobrwyo gwasanaeth hir, ymweliadau â chartrefi gofal lleol a digwyddiad codi arian dros elusen ddethol y Maer sef Sight Cymru. Roedd yn bleser arbennig i'r Swyddfa Ddinesig groesawu dirprwyaeth a oedd yn ymweld â Chaerffili o gyfeilldref y Cyngor sef Ludwigsberg. Aeth y Dirprwy Faer i ddigwyddiad Pride cyntaf Caerffili ar 24 Mehefin 2023, a diolchodd i'r nifer fawr o staff oedd wedi trefnu'r digwyddiad arbennig hwn.

**3. DERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)**

Ni chafwyd unrhyw ddeisebau.

**4. CYFLWYNO GWOBRAU**

**Ysgol Gynradd Nant y Parc – Marc Ansawdd World Class Schools**

Roedd yn bleser gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau gyhoeddi bod Ysgol Gynradd Nant y Parc wedi'i hachredu â Marc Ansawdd World Class Schools, yr ysgol gynradd gyntaf yng Nghymru i gael y dyfarniad hwn. Rhoddir y Marc Ansawdd gan yr elusen addysg 'World Class Schools Quality Mark'. Mynegodd yr Aelod Cabinet ei phleser wrth gydnabod gwaith caled ac ymrwymiad y disgyblion a rhannodd falchder eu rhieni a'r staff.

Dangoswyd fideo i'r Cyngor a roddodd flas i'r Aelodau ar fywyd yn yr ysgol.

Gan ychwanegu at y cyflawniad hwn, roedd yn bleser gan yr Aelod Cabinet gyhoeddi bod yr ysgol bellach wedi'i henwi'n Ysgol y Flwyddyn gan yr elusen addysg.

Gwahoddwyd pennaeth yr ysgol Nicola Davies a'r athrawes Emma Winter i ddod gerbron y cyfarfod gan y Maer er mwyn i'r Cyngor eu llongyfarch ar y cyflawniadau arbennig hyn.

**Gwobrau Ysgolion a Cholegau De-ddwyrain Cymru / Gwobrau Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent**

Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau wrth ei bodd i gyhoeddi llwyddiannau mewn dwy seremoni wobrwyo yn ddiweddar. Enillodd nifer o ysgolion a'u staff 7 categori yng Ngwobrau Ysgolion a Cholegau De-ddwyrain Cymru. Hefyd, enillodd Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent wobrau yn y categorïau Tiwtor y Flwyddyn, y Wobr Grŵp a Dysgwr/wyr y Flwyddyn. Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Aelodau ymuno â hi i longyfarch yr enillwyr ar eu llwyddiant, a gobeithiai y byddent yn gallu mynychu cyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2023 er mwyn i'w cyflawniadau gael eu cydnabod yn ffurfiol.

**Tîm Cartrefi Gwag – Gwobrau'r Rhwydwaith Cartrefi Gwag Cenedlaethol**

Roedd yn bleser gan yr Aelod Cabinet dros Dai gyhoeddi y cafodd dau aelod o dîm Cartrefi Gwag CBSC eu cydnabod yng ngwobrau'r Rhwydwaith Cartrefi Gwag Cenedlaethol eleni. Enillodd Jamie Wagenaar y wobr Seren ar ei Chynnydd a rhoddwyd canmoliaeth uchel i Oliver Denton yn y categori Ymarferydd Cartrefi Gwag y Flwyddyn. Nodwyd bod Jamie ac Oliver yn gweithio fel rhan o'r tîm sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â phroblem tai preifat gwag yn y Fwrdeistref Sirol, sydd wedi ailddechrau defnyddio dros 100 o gartrefi gwag. Mae'r dull a ddefnyddir gan y tîm wedi'i gydnabod fel arfer gorau gan Lywodraeth Cymru hefyd. Mae gwaith caled ac ymroddiad Jamie ac Oliver, ynghyd ag aelodau eraill y tîm, i'w ganmol, a mynegodd yr Aelod Cabinet ei falchder o gael aelodau staff mor arbennig yn gweithio i'r Fwrdeistref Sirol.

Gwahoddwyd Jamie Wagenaar ac Oliver Denton i ddod gerbron y cyfarfod gan y Maer er mwyn i'r Aelodau eu llongyfarch ar eu cyflawniadau.

## 5. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd Cynghorydd A. Farina-Childs fuddiant personol a rhagfarnus yn Eitem Agenda 12 - Hysbysiad o Gynnig - Chwarel Tŷ Llwyd, Ynysddu am ei fod yn gweithio i gwmni BRUSH Switchgear. Ymadawodd â'r cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem hon. Caiff y manylion eu cofnodi hefyd gyda'r eitem berthnasol.

## 11. CYFLWYNIAD GAN GOMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Gyda chaniatâd y Maer, dygwyd yr eitem hon ymlaen ar yr agenda.

Roedd yn bleser gan Arweinydd y Cyngor gyflwyno Mr Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a chyfeiriodd at ei gefndir a'i brofiad helaeth yn y sector cyhoeddus cyn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Mawrth 2023 am dymor o saith mlynedd.

Diolchodd y Comisiynydd i'r Aelodau am y cyfle i annerch y Cyngor er mwyn rhannu ei brofiad a disgrifio rôl a chyfrifoldeb ei swydd bresennol. Dywedodd wrth yr Aelodau ei fod wedi cyfarfod â'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn ddiweddar i drafod ei rôl a sut y gallai ei swyddfa weithio ochr yn ochr â Chyngor Caerffili. Esboniodd y Comisiynydd y cafodd ei rôl ei sefydlu o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i holl gyrff cyhoeddus Cymru ystyried datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wnânt, gan gynnwys effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Bydd hyn yn sicrhau y byddwn yn datrys problemau heddiw ynghyd â phroblemau yfory. Mae'n ddeddfwriaeth sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac sydd eisoes yn cael effaith sylweddol yng Nghymru.

Rhoddodd y Comisiynydd drosolwg o'r Ddeddf a chyfeiriodd yr Aelodau at y wybodaeth sydd ar gael ar wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Cyfeiriodd y Comisiynydd at y Pum Ffordd o Weithio, a fydd yn cael eu defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol i edrych ar gynnydd awdurdodau lleol o ran cyflawni'r Ddeddf a deall a ydynt wedi'u cymhwyso wrth wneud penderfyniadau, gwneud polisïau a chyflenwi gwasanaethau. Cyfeiriodd at Amcanion Llesiant Cyngor Caerffili a sefydlwyd yn unol â'r Ddeddf, a'r ffaith bod yr Awdurdod eisoes yn gweithio'n gydweithredol fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent sy'n rhan o'r agenda integreiddio a chydweithredu. Fodd bynnag, mae angen i'r Awdurdod ystyried nawr sut mae'n cymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio ledled y Cyngor a sut mae'n symbylu newid diwylliannol ar draws y sefydliad wrth arwain y staff i fwrw ymlaen â'r broses.

Esboniodd y Comisiynydd ei fod yn awyddus i weithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol i hwyluso newid a'i fod yn cydnabod yr amgylchiadau anodd a wynebir o ran pwysau cyllidebol a gofynion gwasanaethau. Pwysleisiodd ei fod, fel rhan o'i rôl, yn cefnogi, cynghori, monitro, asesu a herio cynnydd ac adolygu pan fo angen. Croesawodd unrhyw fewnbwn gan Gynghorwyr wrth lunio ei flaenoriaethau ar gyfer ei Gynllun newydd, a fydd yn ei le erbyn mis Hydref 2023. Edrychai ymlaen at gefnogi taith Cyngor Caerffili o ran rhoi'r Ddeddf ar waith, a'r berthynas barhaus a'r trafodaethau y byddent yn eu cael.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Comisiynydd am roi ei amser i siarad â'r Cyngor, a gofynnodd sut allai'r Awdurdod ganolbwyntio ar faterion ataliol hirdymor ynghanol argyfwng economaidd. Esboniodd y Comisiynydd nad oes unrhyw ddewis o ran datblygu cynaliadwy a bod amser yn mynd yn brin i'r byd fynd i'r afael â'r materion hyn. Felly mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl am atebion 50-75 o flynyddoedd ymlaen llaw ac ystyried a fydd yr atebion yn debygol o fod yn iawn i genedlaethau'r dyfodol ac a fyddant yn dal i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Cadarnhaodd y byddai ei Swyddfa'n gallu cynnig cymorth ac enghreifftiau o sut mae awdurdodau lleol eraill wedi gwneud penderfyniadau tebyg er mwyn llywio proses benderfynu'r Cyngor wrth symud ymlaen.

Gwahoddwyd y Cyngor i ofyn cwestiynau ac ymatebodd y Comisiynydd i ymholiad am ei ddylanwad ar lefel LIC er mwyn rhoi sylw i'r anawsterau mawr hyn sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Esboniodd y Comisiynydd, er bod pwerau ei rôl yn gyfyngedig rhoddir llawer o bwyslais ar weithio cydweithredol traws-sector a'r cynnydd a wneir trwy gydweithio'n gadarnhaol. Wrth ymateb i ymholiad arall, cadarnhaodd y Comisiynydd bod gofal cymdeithasol yn uchel ar yr agenda, a'i fod hefyd yn awyddus i ganolbwyntio ar ymgysylltu ar lefel gymdeithasol ledled Cymru er mwyn i'r materion hyn ynghylch datblygu cynaliadwy gael eu cydnabod. Pwysleisiodd y Comisiynydd ei fod yn awyddus i reoli disgwyliadau a bod rhai o'r materion hyn wedi bodoli ers cenedlaethau, ac er y bydd yn ceisio dylanwadu ar ganlyniadau lle bynnag y bo modd, nid yw'r materion hyn dan ei reolaeth yn uniongyrchol a'i rôl ef yw cefnogi cyrff cyhoeddus i reoli'r gwaith o weithredu'r Ddeddf.

Nododd y Cyngor gynnwys cyflwyniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a diolchodd y Maer i Mr Walker am ei bresenoldeb ac am ymateb i ymholiadau'r Aelodau.

## 6. CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 11 MAI 2023

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Mai 2023 (cofnodion 1-19) fel cofnod cywir.

## 7. CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 23 MAI 2023

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023 (cofnodion 1-15) fel cofnod cywir.

## DATGANIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR

Gyda chaniatâd y Maer, rhoddwyd datganiad gan Arweinydd y Cyngor.

Atgoffwyd yr Aelodau y dechreuodd y cynllun cludo prydau ysgol am ddim i gartrefi ym mis Mawrth 2020, fel ymateb i'r pandemig Covid-19. Dechreuodd CBSC ddosbarthu 5,580 o brydau a thyfodd y galw yn gyflym i dros 7,000 o ddisgyblion yn cael pryd maethlon am ddim yn eu cartrefi.

Yn 2020, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i warantu prydau ysgol am ddim i deuluoedd cymwys yn ystod gwyliau ysgol. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau i gyflenwi parseli bwyd y mae mawr eu hangen yn ystod gwyliau ysgol, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd heriau o ran adnoddau a chyflenwyr yn gysylltiedig â dosbarthu parseli bwyd i gartrefi teuluoedd unigol, penderfynwyd newid y cynllun yn gynllun talebau'r Swyddfa Bost gwerth £19.50 yr wythnos i bob plentyn. Teimlwyd y byddai system talebau'n caniatáu i deuluoedd cymwys dderbyn taliadau arian yn uniongyrchol, gan roi mwy o ddewis a hyblygrwydd iddynt.

Ddydd Mercher diwethaf, yn anffodus, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru na fyddai cyllid yn cael ei ymestyn eto i dalu am gyfnod gwyliau'r haf, oedd ar ddod, nac ar ôl hynny chwaith. Bydd cyllid LlC yn dod i ben felly, yn derfyn disymwth i wasanaeth yr oedd wir ei angen ar ein plant agored i niwed. Mae'r argyfwng costau byw wedi rhoi pwysau mawr ar ein cymunedau, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel. Mae prisiau cynyddol wedi rhoi straen ddifrifol ar lawer o aelwydydd, gyda llawer yn gorfod dewis rhwng yr hanfodion, gan gynnwys bwyd neu wres. Mae'r adborth a gafwyd eisoes gan deuluoedd wedi dangos eu bod yn llwyr ddibynnol ar y taliad hwn ac yn llawn ddisgwyl y byddai'n parhau yn ystod gwyliau'r haf.

Mynegodd yr Arweinydd ei bod yn hanfodol i'n plant a phobl ifanc fwynhau eu gwyliau ysgol gan wybod bod bwyd ar gael iddynt, ac y gallai'r Cyngor helpu i leddfu rhywfaint o'r pwysau sydd ar deuluoedd sy'n cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r Cabinet yn ystyried cynnig yr wythnos nesaf i barhau â'r cyllid hwn drwy'r gwyliau haf sydd ar ddod er mwyn cefnogi ein teuluoedd mwyaf agored i niwed yn ystod y cyfnod anodd hwn drwy neilltuo cronfa untro o £900,000 i barhau i gynnig talebau bwyd dros gyfnod gwyliau'r haf yn unig. Mae'r Arweinydd hefyd wedi gofyn i Swyddogion roi adroddiad ar ddechrau'r hydref yn amlinellu'r dewisiadau sydd ar gael i sicrhau y caiff cymorth y mae mawr ei angen ei gynnal a'i fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y tymor hirach, fel rhan o'n pecyn cymorth cyffredinol Gofalu am Gaerffili. Er mwyn cytuno ar y cyllid hwn yn y tymor hir byddai'n rhaid neilltuo dros £2 filiwn yn ein cyllideb sylfaenol pan rydym eisoes yn wynebu diffyg gwerth £50 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Nid yw hynny'n opsiwn felly.

Er bod yr Arweinydd yn sicr y byddai Aelodau ar draws y Cyngor yn cefnogi'r fenter hon, gofynnodd i grŵp Plaid Cymru a fyddent yn ei gefnogi wrth iddo ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn i Lywodraeth Cymru a fyddai'n adolygu'r polisi Prydau Ysgol am Ddim Cyffredinol yng ngoleuni'r pwysau sydd ar y teuluoedd tlotaf yn ein cymunedau yn ystod yr Argyfwng Costau Byw hwn, sy'n parhau yn ystod y tymor ysgol ac yn ystod y gwyliau.

Fel arweinydd grŵp Plaid Cymru, ymatebodd y Cynghorydd L. Whittle ei fod yn falch bod y Cyngor yn gwneud trefniadau gwahanol ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r haf. Cadarnhaodd y byddai grŵp Plaid Cymru yn llwyr gefnogol o'r cynnig, ac roedd hefyd wedi lobïo Aelodau'r Senedd yn hynny o beth.

**8. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10**

Cwestiwn gan y Cynghorydd A. Whitcombe i Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan

Gyda'r angen taer am dai yn y Fwrdeistref Sirol, beth mae CBSC wedi'i wneud i ddod ag eiddo gwag yn ôl i'r farchnad dai leol?

Ymateb Arweinydd y Cyngor i Gynghorydd A. Whitcombe

Hoffem dynnu eich sylw at y cynnydd a wnaethom o ran Eiddo Gwag Preifat. Rydym wedi cynyddu'r cyflenwad tai drwy gefnogi cyfleoedd i ailddechrau defnyddio tai yn y sector preifat a fu'n wag ers amser maith. Daeth grant Tasglu'r Cymoedd i ben gyda 66 o grantiau wedi'u cwblhau yn ystod cyfnod y rhaglen, gan wario bron £1.5 miliwn. Cytunodd y Cabinet yn ddiweddar i'r Grantiau Tai Gwag Cenedlaethol dros y ddwy flynedd nesaf. Lansiwyd y grant ym mis Ebrill 2023 gyda gwariant gwerth £2.6 miliwn ar gael i'r rhaglen. Ailddechreuwyd defnyddio 105 o dai gwag hirdymor yn fuddiol trwy waith y tîm Tai Gwag, dim ond trwy ymgysylltu â pherchnogion. Rydym hefyd yn mynd ar drywydd cymryd camau gorfodi, ac wedi nodi 73 o eiddo a bennwyd yn rhai gwag, risg uchel â blaenoriaeth, sy'n cael eu targedu'n rhagweithiol.

Mae'r Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag pum mlynedd, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, ar y trywydd iawn i gyflawni ei nodau. Caiff ei yrru ymlaen gan y Tîm, ac mae cynllun cyfathrebu ar y gweill i hyrwyddo gwaith y Tîm. Cafodd y Strategaeth Tai Gwag o'r enw "Yn Dda i Ddim yn Wag" ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 8 Mawrth 2023 ac mae'n cael ei rhoi ar waith. Cadarnhaodd yr ymgynghoriad ar y Strategaeth bod y cyhoedd yn frwd o blaid y gwaith i fynd i'r afael â phroblemau eiddo gwag. Rydym wedi gwneud cychwyn cadarnhaol i'r rhaglen heriol hon. Rydym yn derbyn bod angen gwneud llawer iawn mwy o waith ac wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, rhoddir diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r tîm o bum aelod o staff, sydd wedi ennill gwobrau, dan arweiniad Claire Davies, am eu holl waith gwych. Mae cymaint wedi'i gyflawni eisoes, ond fel y dywedaf, mae cymaint yn fwy i'w wneud eto.

**9. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10**

Cwestiwn gan y Cynghorydd A. McConnell i'r Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd, y Cynghorydd C. Morgan

Allai'r Aelod Cabinet dros Wastraff a Mannau Gwyrdd roi diweddariad i ni ar yr ymgyrch 'Mai Di-dor'?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd i Gynghorydd A. McConnell

Mae'n siŵr bod yr Aelodau yn ymwybodol iawn o'n hymrwymiad i fioamrywiaeth yn y Fwrdeistref Sirol, a'r gefnogaeth a roesoch inni yn y seminar Bioamrywiaeth fis Hydref diwethaf.

Mae ein 'Mai Di-dor' cyntaf newydd ddod i ben a chafwyd ymateb cymysg iddo gan ein preswylwyr a chanlyniadau cymysg yn weithredol. Cawsom lawer o negeseuon cadarnhaol gan y cyhoedd, ond cawsom rai ymatebion llai cadarnhaol hefyd. Er ein bod ni'n dathlu ac yn mwynhau canlyniadau cadarnhaol yr arbrawf 'Mai Di-dor', rydym yn cydnabod nad oeddem wedi gwneud y peth iawn mewn rhai ardaloedd, a gwyddom y bydd angen inni newid ein dulliau mewn rhai ardaloedd allweddol cyn y tymor nesaf. Gwaetha'r modd, oherwydd y gwres eithafol a'r diffyg glaw ledled y DU yn ystod yr wythnosau diwethaf, nid yw'r broses o blannu blodau gwyllt wedi bod mor llwyddiannus ag y byddem wedi hoffi.

Gyda chyfnod Mai Di-dor bellach wedi dod i ben, mae pawb eisiau eu darnau o laswellt wedi'u torri ar frys. Er ein bod ni'n mynd ati i'w wneud, mae gennym ôl-groniad o waith, a byddwn yn gofyn i Aelodau ac aelodau'r cyhoedd am eu hamynedd parhaus wrth i'r staff weithio ar hyd y Fwrdeistref Sirol. Hoffwn ddiolch i'r timau Parciau a Chefn Gwlad wrth inni roi'r dull newydd hwn ar waith. Ni fu'n beth hawdd, ond gwn fod y timau wedi ymrwymo iddo o hyd. Rydym wrthi'n recriwtio deg aelod ychwanegol o staff i roi mwy o gefnogaeth i'r tîm ac wedi archebu peiriannau newydd a darnau sbâr gan fod y glaswellt hir wedi effeithio ar ein peiriannau hefyd.

Dysgasom lawer gan ein Mai Di-dor cyntaf a bwriadwn ddefnyddio profiad eleni i wella ein dull gweithredu blwyddyn nesaf. Fel yr Aelod Cabinet, hoffwn eich sicrhau y byddwn yn gwneud hynny'n union. Bwriedir cynnal Seminar arall i'r Aelodau yn yr hydref i'r Aelodau drafod ac ystyried ein camau nesaf, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd eleni a'r ffordd ymlaen i fioamrywiaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol. Caiff hyn ei nodi mewn adroddiad Cabinet cyn dechrau'r tymor newydd. Byddwn yn rhoi gwybod i'r holl Aelodau a'r cyhoedd am ein dull gweithredu er mwyn sicrhau bod pawb yn ei ddeall ac wedi ymrwymo iddo.

Credaf fod pawb yn gwybod bellach nad yw 'natur yn daclus' ond gwyddom fod angen inni ddod o hyd i dir canol sy'n cydbwyso ein bwriadau a chyfrifoldebau o ran bioamrywiaeth ochr yn ochr â chadw ein hardal yn wyrdd ac yn lân.

## 10. DERBYN CWESTIYNAU A DDAETH I LAW O DAN REOL GWEITHDREFN 10 I'W HATEB YN YSGRIFENEDIG

<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd K. Etheridge i'r Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, y Cynghorydd P. Leonard</u>

Gofyn i'r Aelod Cabinet pam mae sylwadau aelodau etholedig Wardiau Ynysddu wedi'u hanwybyddu, pwy wnaeth y penderfyniad i anwybyddu eu sylwadau adeiladol diwygiedig, ac i beidio â'u cynnwys yn y cylchlythyr a ddosbarthwyd i breswylwyr, a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar Gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, ac a ydynt yn teimlo ei fod yn arfer da ac yn gosod cynsail ar gyfer holl wardiau eraill Tîm Caerffili?

<u>Ymateb ysgrifenedig gan yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i'r Cynghorydd K. Etheridge</u>

Gallaf gadarnhau mai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros yr Economi a'r Amgylchedd a wnaeth y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddosbarthu'r cylchlythyr. Nid oedd y cylchlythyr yn cynnwys unrhyw wallau ffeithiol a chafodd ei lunio'n fwriadol i fod yn gryno. Caiff ei gefnogi gan gyfres o Gwestiynau Cyffredin ar y we y gellir eu diweddaru/diwygio fel bo angen. Yn ei ymateb drwy e-bost at y Cynghorwyr Reed a Jones ar 8 Mehefin 2023, ysgrifennodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol:

***"Nodaf eich sylwadau hirfaith ond yn ôl fy swyddogion technegol, nid yw'r cylchlythyr yn cynnwys unrhyw wallau ffeithiol. Nid yw'r cylchlythyr yn gamarweiniol mewn unrhyw ffordd a chafodd ei lunio fel crynodeb cefndir cryno i breswylwyr gael gwybod am yr hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud ac yn bwriadu ei wneud mewn perthynas â Thŷ Llwyd. O ganlyniad, caiff y cylchlythyr ei ddosbarthu fel y cynlluniwyd ar ddiwedd yr wythnos hon.***

***Yn bwysig, mae'r cylchlythyr yn cyfeirio preswylwyr at gyfres o Gwestiynau Cyffredin a fydd yn fyw ar ein gwefan sy'n cynnwys rhifau ffôn ar gyfer Maria Godfrey a Ceri Evans, sy'n fodlon trafod unrhyw ymholiadau a ddaw gan breswylwyr. Y Cwestiynau Cyffredin yw'r lle mwyaf priodol i lanlwytho gwybodaeth pan fo angen diweddariadau***

***a'r lle mwyaf priodol hefyd i ymateb i'r ymholiadau a godir mewn negeseuon e-bost gwahanol ar bwnc Tŷ Llwyd."***

*1 Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth*

> *Mae ymgysylltu'n effeithiol ac wedi'i lunio i wneud gwahaniaeth ond os yw'r ddwy ochr yn fodlon.*

*2 Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny*

> *Trefnwyd cyfarfod rhwng Swyddogion CBSC, CNC, Arkadis, dau Gynghorydd Ward Ynysddu, fi a'r Arweinydd, er mwyn eu cynnwys, eu hannog a'u galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch Chwarel Tŷ Llwyd. Yn anffodus, penderfynodd y ddau Gynghorydd Ward beidio â bod yn bresennol, a olygai nad oedd gan y preswylwyr lais na chynrychiolaeth yn y cyfarfod.*

*3 Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol.*

> *Cynlluniwyd y cyfarfod uchod yn amserol ymlaen llaw gyda chynrychiolwyr o'r holl sefydliadau perthnasol, ond yn anffodus nid oedd y ddau Gynghorydd Ward yn bresennol. Teimlaf fod hyn yn amhriodol ac yn bendant nid yw'n 'arfer da'*

**ADRODDIADAU SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

## 12. HYSBYSIAD O GYNNIG - CHWAREL TŶ LLWYD, YNYSDDU

Datganodd y Cynghorydd A. Farina-Childs fuddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem hon am ei fod yn gweithio i gwmni BRUSH Switchgear. Ymadawodd â'r cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem hon.

Ystyriwyd yr Hysbysiad o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd J. Jones a'r Cynghorydd J. Reed, a gefnogwyd gan y Cynghorydd K. Etheridge.

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Reed yr Hysbysiad o Gynnig oedd wedi cael ei ystyried a'i gefnogi gan y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 2 Mai 2023. Yn y cyfarfod hwnnw, diwygiodd y Cynghorydd J. Jones a'r Cynghorydd J. Reed eu cynnig, sydd wedi'i nodi'n llawn isod, gyda'r newidiadau wedi'u hamlygu.

> "Yn eu hysbysiad o gynnig, mae'r Cynghorydd J. Jones a'r Cynghorydd J. Reed, oherwydd pryderon preswylwyr, yn galw ar y Cyngor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gefnogi eu cais i'r Prif Weinidog Mark Drakeford am Ymchwiliad Cyhoeddus Annibynnol **ac i ymchwilio a hwyluso cyllid dan Broses Ail Ran Deddf Diogelu'r Amgylchedd Rhan Dau A, ar Chwarel Tŷ Llwyd**".

Cadarnhaodd y Cynghorydd J. Reed yr hoffai ddiwygio geiriad yr Hysbysiad o Gynnig eto i'w ystyried gan y Cyngor. Cafodd hyn ei gynnig a'i eilio.

Cafwyd ymholiadau mewn perthynas â'r diwygiadau arfaethedig a gohiriwyd y cyfarfod tan 6.50 p.m. er mwyn derbyn eglurhad.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 7.01 p.m. a rhoddodd y Swyddogion eglurhad pellach a chyngor mewn perthynas â'r Hysbysiad o Gynnig.

Fel llofnodwyr yr Hysbysiad o Gynnig, cadarnhaodd y Cynghorydd J. Jones a'r Cynghorydd J. Reed eu bod yn dymuno diwygio geiriad yr Hysbysiad o Gynnig i ddarllen fel a ganlyn:-

> "Yn eu hysbysiad o gynnig, mae'r Cynghorydd J. Jones a'r Cynghorydd J. Reed, oherwydd pryderon preswylwyr, yn galw ar y Cyngor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gefnogi eu cais i'r Prif Weinidog Mark Drakeford am Ymchwiliad Cyhoeddus Annibynnol ac i ymchwilio a hwyluso cyllid o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd Rhan 2A ar Chwarel Tŷ Llwyd".

Cafodd yr Hysbysiad o Gynnig diwygiedig ei gynnig a'i eilio. Cynhaliwyd y bleidlais drwy Microsoft Forms a thrwy gadarnhad ar lafar. Gan nodi 57 o blaid, 0 yn erbyn, a 4 yn atal eu pleidlais, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig diwygiedig.

## 13. HYSBYSIAD O GYNNIG – SIARTER CLEFYD NIWRONAU MOTOR (MND)

Ystyriwyd yr Hysbysiad o Gynnig a gafwyd gan y Cynghorydd N. George ac a gefnogwyd gan y Cynghorwyr C. Andrews, P. Leonard, E. Forehead, S. Cook, C. Morgan, J. Simmonds, E. Stenner, J. Pritchard a S. Morgan.

Cyflwynodd y Cynghorydd N. George yr Hysbysiad o Gynnig a gafodd ei ystyried a'i gefnogi gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ar 30 Mai 2023. Gofynnodd yr Hysbysiad o Gynnig i CBSC fabwysiadu'r Siarter Clefyd Niwronau Motor (MND) er mwyn codi ymwybyddiaeth yn fewnol, ac yn y pen draw, cyflawni canlyniadau gwell i bobl i sy'n byw gyda'r clefyd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau a chafodd yr Hysbysiad o Gynnig ei gynnig a'i eilio. Cynhaliwyd y bleidlais drwy Microsoft Forms a thrwy gadarnhad ar lafar. Gan nodi 59 o blaid, 0 yn erbyn, a 0 yn atal eu pleidlais, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig.

## 14. AIL GYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI HYD AT 31 MAWRTH 2035 - CYNLLUN CYN-ADNEUO - ADRODDIAD YMGYNGHORI CYCHWYNNOL

Ystyriwyd yr adroddiad, a oedd yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol ac ymgynghoriad Cyn-Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol, a chytundeb y Cyngor i gynnal asesiad rhanbarthol o dwf a mudo ar draws y rhanbarth. Byddai'r gwaith ar yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael ei ohirio yn ystod yr asesiad hwn.

Cafodd yr Aelodau wybod am ganlyniad yr ymgynghoriad 6-wythnos statudol ar y CDLl Cyn-Adneuo a gynhaliwyd rhwng 19 Hydref a 30 Tachwedd 2022, a derbyniwyd ychydig yn llai na 2000 o ymatebion (gan gynnwys 327 ar y Cynllun Cyn-Adneuo a 1641 ar y Safleoedd Ymgeisiol). O dan Reoliad 16A o reoliadau'r CDLl, rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol sy'n nodi sut y rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ac yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr ymatebion a gafwyd. Cafodd hyn ei nodi yn Atodiad 6 i adroddiad y Swyddog.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei sylwadau ar y cynllun Cyn-Adneuo ar 25 Tachwedd 2022. Mae'r sylwadau wedi'u rhannu'n ddau gategori: sylwadau cyffredinol sy'n gofyn am fwy o wybodaeth ac eglurder, a gaiff eu hateb yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol; a Gwrthwynebiadau Cydymffurfiaeth sy'n codi materion cydymffurfiaeth o ran tair rhan y cynllun. Gallai'r gwrthwynebiadau hyn fod â goblygiadau sylweddol i'r Cynllun Cyn-Adneuo a

chânt eu disgrifio yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol, ond ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â hwy.

Mae'r Gwrthwynebiad Cydymffurfiaeth cyntaf yn erbyn y Safle Strategol ym Maes-y-cwmwr. Oni ddatrysir y gwrthwynebiad hwn, mae'n amheus iawn a fyddai modd ystyried y Cynllun yn un cadarn o'i archwilio. Byddai argymhellion mewn perthynas â'r mater hwn yn cael eu hadrodd i'r Cyngor llawn ar ôl cwblhau'r gwaith yn ymwneud â'r ail fater a nodir isod. Mae'r ail Wrthwynebiad Cydymffurfiaeth yn ymwneud â sut cafodd y lefel twf arfaethedig yn y Cynllun ei ddatblygu o asesiad twf rhanbarthol. Er gwaethaf amheuon sylweddol iawn yr holl awdurdodau lleol yn y rhanbarth, ac ymagwedd wahanol LlC at dwf yng nghynlluniau awdurdodau eraill, mae Cymdeithas Swyddogion Cynllunio de-ddwyrain Cymru yn ceisio comisiynu'r gwaith hwn ar gyfer ardal Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y gwaith hwn yn ddarn sylfaenol o dystiolaeth i'r holl gynlluniau yn y rhanbarth, a bydd yn cymryd amser hir i'w gwblhau. O ganlyniad, roedd yr adroddiad yn gofyn am ohirio cynnydd y CDLl dros dro tan y byddai'r gwaith hwn wedi'i wneud. Mae'r trydydd Gwrthwynebiad Cydymffurfiaeth yn ymwneud â mabwysiadu ymagwedd ar sail natur wrth baratoi'r Cynllun. Er bod y Cynllun wedi'i ddatblygu ar y sail hon, nid oedd wedi'i nodi'n glir yn y sylfaen tystiolaeth. Argymhellir felly y dylid paratoi papur tystiolaeth ychwanegol i fynd i'r afael â'r mater hwn pan fydd y gwaith ar y Cynllun yn ailddechrau.

Y cam cyntaf o ran ystyried y ffordd ymlaen i'r Cynllun yw gwneud a chwblhau'r gwaith rhanbarthol. Gofynnwyd i'r Cyngor felly gymeradwyo'r argymhellion fel y'u nodwyd yn Adrannau 3.1 i 3.4 o adroddiad y Swyddog.

Trafodwyd yr adroddiad gan y Cyngor a gofynnodd Aelod sut fyddai ei gyngor cymunedol yn gallu cyflwyno sylwadau pellach mewn perthynas â'r Safle Strategol ym Maes-y-cwmwr. Esboniodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol bod y rheoliadau'n dweud na ellir cyflwyno sylwadau ond yn ystod y cyfnod ymgynghori, ond y byddai Swyddogion yn croesawu unrhyw sylwadau pellach o ran y Safleoedd Ymgeisiol. Fodd bynnag, ni fyddai modd eu cynnwys mewn unrhyw adroddiad gan y Cyngor mewn perthynas â'r Safle Strategol oherwydd y cyfyngiadau a osodir gan y rheoliadau.

Gofynnodd Aelod a oedd arian wedi'i ddarparu ar gyfer ymestyn y broses CDLl. Cadarnhaodd y Swyddog bod y sefyllfa ariannol o ran paratoi'r Ail CDLl newydd wedi'i nodi ar ddechrau'r broses yn 2019. Fodd bynnag, mae hon yn rhaglen dreigl heb gyllideb bendant. Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor ar ôl cwblhau'r gwaith rhanbarthol, a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau ariannol, ac felly ailystyrir y sefyllfa y pryd hwnnw. Gan ymateb i ymholiad arall ynghylch amserlenni, cadarnhaodd y Swyddog y byddai llunio'r adroddiad hwn yn dibynnu ar faint o amser a dreulir ar y gwaith rhanbarthol, a fyddai'n chwe mis o leiaf yn ei dyb ef, sy'n golygu na fydd y Cyngor mewn sefyllfa i edrych ar ganlyniadau a'r camau nesaf cyn dechrau 2024.

Llongyfarchodd yr Aelodau D. Lucas a'i dîm am y ffordd feistrolgar yr aethant yn groes i wrthwynebiadau Llywodraeth Cymru, a diolchasant iddynt am baratoi'r adroddiad cynhwysfawr.

Wedi ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo. Drwy Microsoft Forms a thrwy gadarnhad ar lafar (a gan nodi 57 o blaid, 0 yn erbyn, a 2 yn atal eu pleidlais, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD y dylid: -

(i) nodi cynnwys yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol;

(ii) cymeradwyo'r argymhellion a nodir yn Atodiadau'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol;

(iii) cytuno i ohirio’r gwaith ar yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd hyd nes y bydd casgliadau’r gwaith rhanbarthol sy’n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â thwf a mudo yn hysbys. Wedi hynny, gall y Cyngor ystyried yr opsiynau o ran symud ymlaen â’r gwaith o baratoi’r cynllun mewn cyfarfod o’r Cyngor;

(iv) o gofio’r pwyslais a roddir ar weithio cydweithredol gan Lywodraeth Cymru, a’r cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol sy’n newid yn gyflym ar gyfer paratoi’r cynllun, dylid cytuno y bydd yr Arweinydd yn lobïo LlC a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd (Cyd-bwyllgor Corfforedig) ynghylch natur frys yr angen i fwrw ymlaen i lunio amserlen gynlluniedig y cytunir arni er mwyn paratoi’r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.41 p.m.

Cymeradwywyd fel cofnod cywir ac, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunir ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 27 Medi 2023, fe’u llofnodwyd gan y Maer.

________________________

MAER